# Adroddiad Blynyddol

2024 - 2025



Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru

Cynnig Cymraeg

# Adroddiad y Cadeirydd



**Mae'n fraint cael cyflwyno Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr eleni, gan fyfyrio ar gyfnod o her a chynnydd ar gyfer Blynyddoedd Cynnar Cymru.**

Rydyn ni'n dal i weithredu mewn hinsawdd lle mae pwysau ariannol—personol a sefydliadol—i'w deimlo'n ddwys ar draws y sector. Er gwaethaf hynny, mae ein hymrwymiad cadarn i blant yn ystod eu blynyddoedd cynnar yn gwbl ganolog i'n cenhadaeth. Rydyn ni'n credu bod buddsoddi mewn plentyndod cynnar nid yn unig yn hanfodol ar gyfer datblygiad unigol ond hefyd yn sylfaenol i gymdeithas ffyniannus yng Nghymru.

Yn 2024/25, cymerodd Blynyddoedd Cynnar Cymru y cam beiddgar o gynnig aelodaeth am ddim i bob lleoliad ac unigolyn. Nod y fenter, a ariannwyd drwy ein cronfeydd wrth gefn mewnol, oedd lleddfu beichiau ariannol a sicrhau bod mynediad at ein cymorth a'n hadnoddau yn dal i fod yn gynhwysol. Mae'r penderfyniad yn adlewyrchu ein gwerthoedd a'n cred yng ngrym gweithredu ar y cyd er mwyn cefnogi plant a theuluoedd.

Ochr yn ochr â hynny, mae Bwrdd yr Ymddiriedolwyr wedi bod yn gyrru ehangiad sylweddol yn ein gweithgareddau. Rydyn ni wedi cynyddu'n hymdrechion o ran eiriolaeth, wedi cyfrannu at waith datblygu polisi, wedi darparu hyfforddiant o ansawdd uchel, ac wedi gwella'n gwasanaethau proffesiynol. Mae'r camau hyn yn rhan o'n hymrwymiad strategol i fod yn system cymorth ac yn llais blaenllaw ar gyfer y sector blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Drwy gydol y flwyddyn, rydyn ni wedi mynd ati i gynrychioli ein haelodau yn nhrafodaethau'r Senedd, mewn grwpiau cynghori ar bolisi, ac mewn fforymau cymunedol. Rydyn ni wedi cyhoeddi darnau arwain agweddau, wedi diweddaru canllawiau ymarfer a pholisïau allweddol, ac wedi rhannu'r rhain yn eang drwy ein llwyfannau digidol. Ein nod yw hyrwyddo arferion gorau a chodi proffil gofal blynyddoedd cynnar ar draws y wlad.

Wrth edrych ymlaen, rydyn ni'n cydnabod pwysigrwydd yr etholiadau i Senedd Cymru sydd ar y gorwel. Rydyn ni'n gweithio'n rhagweithiol gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod anghenion plant, teuluoedd a darparwyr blynyddoedd cynnar wedi'u hymgorffori'n gadarn yn y sgwrs wleidyddol. Yn 2025, byddwn yn lansio ein maniffesto, gan amlinellu argymhellion ymarferol ac effeithiol i gryfhau darpariaeth blynyddoedd cynnar yng Nghymru.

Rydyn ni'n falch o'r llwyddiannau sydd wedi'u nodi yn yr Adroddiad hwn ac rydyn ni'n dal i fod yn ymrwymedig i ddyfnhau effaith ein gwaith yn 2025/26.

***Mae ein gweledigaeth yn glir: dylai fod gan bob plentyn yng Nghymru gyfle i chwarae, dysgu a ffynnu.***

Drwy gydweithio â'n haelodau, ein partneriaid, a Llywodraeth Cymru, rydyn ni'n credu bod y weledigaeth hon nid yn unig yn gyraeddadwy, ond ei bod o fewn cyrraedd.

Mae Cymru mewn sefyllfa unigryw i arwain ym maes datblygiad blynyddoedd cynnar—yn ddigon mawr i wneud gwahaniaeth ystyrlon, ond yn ddigon bach i allu meithrin cydweithio go iawn. Gyda'n gilydd, gallwn adeiladu dyfodol lle bydd pob plentyn yn cael eu cefnogi i gyrraedd eu llawn botensial.

*Dr David Dallimore*
Cadeirydd yr Ymddiriedolwyr



**Os nad ydych chi'n dilyn gwaith gwych Blynyddoedd Cynnar Cymru eisoes, dyma'r amser i wneud hynny.**

Maen nhw'n hyrwyddo addysg gynnar o safon ledled Cymru, gan arwain y ffordd o ran cefnogi ymarferwyr, lleoliadau a theuluoedd, gyda phwyslais clir ar hawliau plant, addysgeg sy'n seiliedig ar chwarae ac arfer sydd wedi'i wreiddio yn y gymuned.

O adnoddau ymarferol i ddatblygiad proffesiynol, maen nhw'n rym pwerus o ran sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau mewn bywyd.

Mae eu gwerthoedd, eu llais a'u gweledigaeth wedi gwneud argraff go iawn arna i. Dyma sut mae cefnogi sector gyda phwrpas yn edrych.

**Dr Aaron Bradbury, Prif Ddarlithydd Astudiaethau Plentyndod Cynnar, Prifysgol Nottingham Trent (drwy LinkedIn)**










**Cydnabyddiaeth lluniau (clocwedd):** Gofal Dydd Poppins, Meithrinfa Brynbuga, Canolfan Deulu Llanybydder, Meithrinfa Ddydd Mrs Puddleduck

# Ein Hamcanion a'n Nodau

**Nod Blynyddoedd Cynnar Cymru yw cefnogi sector blynyddoedd cynnar o ansawdd uchel, gan weithio gyda darparwyr i gefnogi pob plentyn i gael y dechrau gorau mewn bywyd a chreu'r amodau i bob plentyn allu chwarae, dysgu a ffynnu.**

Nod yr elusen yw:

- Darparu cymorth ac arweiniad, gan gynnwys ar lywodraethiant, rheoleiddio, cynllunio, gwella ansawdd a datblygu'r gweithlu, i sefydliadau ac unigolion sy'n darparu ar gyfer addysg, datblygiad a gofal i blant yn eu blynyddoedd cynnar (0-7 oed); ac
- Annog rhieni, gofalwyr a theuluoedd plant yn eu blynyddoedd cynnar (0-7 oed) i ddeall eu hanghenion ac i ddarparu ar gyfer eu hanghenion drwy eu cynnwys mewn gweithgareddau sy'n hyrwyddo eu haddysg, eu datblygiad a'u gofal.

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn cyflawni'r nodau hyn drwy gynnal ymchwil, darparu cyngor, cyhoeddi a dosbarthu gwybodaeth, cydweithio â chyrff proffesiynol eraill, a defnyddio arian yn unol â nodau ac amcanion yr Elusen. Mae'r Elusen yn gweithio fel sefydliad aelodaeth, gan gasglu ffioedd aelodaeth gan ei haelodau yng Nghymru, a defnyddio'r arian hwnnw i gefnogi'r gwasanaethau a'r cyhoeddiadau a restrir uchod.

**Mae'r Ymddiriedolwyr wedi rhoi sylw dyledus i arweiniad sydd wedi'i gyhoeddi yng nghanllawiau budd cyhoeddus y Comisiwn Elusennau wrth benderfynu pa weithgareddau y dylai'r Elusen ymgymryd â nhw ac wrth gynllunio gweithgareddau'r dyfodol. Rhoddir sylw dyladwy i'r ffordd y bydd gweithgareddau'r dyfodol yn cyfrannu at nodau strategol ac yn cyd-fynd â'r nodau a'r amcanion.**

# Ein Colofnau Strategol

**Mae ein gwaith yn cael ei gyflawni ar lefel weithredol drwy bum colofn ryngddibynnol o weithgarwch. Nod pob colofn yw cefnogi, gwella a rhoi gwerth ar y sector blynyddoedd cynnar yng Nghymru, ac mae pob colofn o werth cyfartal.**

Gyda staff hynod wybodus a thros 60 mlynedd o brofiad yn y sector, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn sefydliad dibynadwy ar gyfer gweithio gyda'r sector ac ar gyfer darparu cymorth o ran polisi ac ymarfer sy'n seiliedig ar ymchwil ac sy'n cael ei arwain gan dystiolaeth.

Nod Blynyddoedd Cynnar Cymru yw rhoi hyder i'n haelodau a'n harianwyr drwy fod yn sefydliad hirsefydlog sy'n cael ei lywodraethu'n gadarn ac sy'n darparu amgylchedd cefnogol o ansawdd i'n staff. Rydyn ni'n canolbwyntio ar ddarparu gwerth am arian.

- Grwpiau dan arweiniad rhieni, elusennau a busnesau gofal plant cynaliadwy ac o safon
- Gweithlu cymwys, medrus y rhoddir gwerth arno ar bob lefel (gan gynnwys gwirfoddolwyr a rheolwyr gwirfoddolwyr)
- Cymorth i rieni plant yn y blynyddoedd cynnar; cymorth i grwpiau dan arweiniad rhieni (e.e. grwpiau Rhieni a Phlant Bach)
- Hyrwyddo dechrau cadarnhaol i bob plentyn drwy gydol eu blynyddoedd cynnar (0-5)
- Eiriolaeth ar gyfer darparwyr a defnyddwyr addysg a gofal plentyndod cynnar

# Llwyddiannau a Pherfformiad

1 2 3

## Grwpiau dan arweiniad rhieni, elusennau a busnesau gofal plant cynaliadwy ac o safon

## Beth wnaethon ni

**Yn 2024/2025 penderfynodd Blynyddoedd Cynnar Cymru gynnig aelodaeth am ddim gan ddefnyddio cronfeydd wrth gefn oedd wedi'u buddsoddi er mwyn talu'r costau ar ran ein haelodau.**

### Cefnogi'n Haelodau Drwy Gyfnodau Heriol

Mewn ymateb i'r argyfwng costau byw parhaus a'r diffyg cynnydd o ran cyllid ar gyfer lleoedd gofal plant a ariennir gan y llywodraeth, penderfynodd Blynyddoedd Cynnar Cymru gynnig aelodaeth am ddim yn 2024/2025. Roedd y cam hwn yn cydnabod y pwysau ariannol oedd yn wynebu'n haelodau—a hynny'n arbennig o ddifrifol yng ngwanwyn 2024—a'r nod oedd lleddfu'r baich ariannol ar leoliadau blynyddoedd cynnar.

Diolch i gefnogaeth hael gan Sefydliad Moondance, a roddodd **£25,060** fel arian cyfatebol i'n buddsoddiad, roedden ni'n gallu darparu'r gefnogaeth hon ar adeg hollbwysig.

Rydyn ni'n falch o fod wedi gorffen y flwyddyn gyda **1,924** o aelodau unigol—yn gryfach ac yn fwy cysylltiedig nag erioed.

## Grant Bach Blynyddoedd Cynnar Cymru

**Cronfa Cefnogi Aelodau mewn Argyfwng**

Roedd ein cronfa grantiau bach yn darparu cefnogaeth hanfodol i leoliadau oedd yn wynebu heriau ariannol oedd yn bygwth eu cynaliadwyedd neu eu cynlluniau twf. Drwy ein partneriaethau strategol gyda Sefydliad Moondance a chronfeydd elusennol yn sgil trosglwyddo perchnogaeth lleoliadau oedd yn aelodau, fe sicrhawyd cyllid pwrpasol ar gyfer rhaglen grantiau bach 2024-25.

### Cipolwg ar Effaith

- **£18,015 o gyllid wedi'i ddyrannu ar draws y rhaglen**
- **38 o aelodau wedi cael cymorth ariannol wedi'i dargedu i gynnal a datblygu eu gwasanaethau**
- **8 sir wedi elwa o grantiau, gan sicrhau cyrhaeddiad daearyddol eang**
- **86% o geisiadau wedi llwyddo, gyda 38 cais llwyddiannus yn cefnogi aelodau mewn angen**

Mae'r gronfa hon yn cynrychioli ein hymrwymiad i sicrhau nad yw rhwystrau ariannol yn atal darpariaeth blynyddoedd cynnar o safon rhag cyrraedd y plant a'r teuluoedd sydd ei hangen fwyaf. Drwy'r gefnogaeth hon, llwyddodd lleoliadau i fynd i'r afael ag amgylchiadau heriol gan gynnal eu pwyslais ar ddarparu gofal ac addysg ragorol.







## Cyfleoedd Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar Cymru

**Drwy bartneriaethau cryf, fe ddarparon ni gyfleoedd ystyrlon oedd yn cefnogi anghenion ein haelodau yn uniongyrchol.**

**Setiau Addysg Build Me "Emotions" LEGO®**
Daeth Grŵp LEGO, Cynghrair y Blynyddoedd Cynnar, Canolfan Blynyddoedd Cynnar y Sefydliad Brenhinol, Blynyddoedd Cynnar yr Alban, Blynyddoedd Cynnar Cymru a Blynyddoedd Cynnar yng Ngogledd Iwerddon at ei gilydd i ddosbarthu setiau Addysg LEGO® i ddarparwyr blynyddoedd cynnar ar draws gwledydd Prydain.

**Edina Trust– Little Explorers Kits**
Pecyn Ymchwilio Awyr Agored am ddim ar gyfer Lleoliadau Elusennol/Gwirfoddol

Roedd partneriaethau eraill yn cynnwys:

- TTS
- Boogiemites
- Redwing HR
- Den Early Years
- Towergate Insurance
- Booktrust Cymru

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn ddiolchgar i bob sefydliad sy'n gweithio mewn partneriaeth â ni er mwyn cefnogi'r sector gofal plant.

# Cymorth Llywodraethu Elusennau Blynyddoedd Cynnar Cymru

Cefnogodd y prosiect llywodraethu **420** o aelodau ym mhob rhan o faes llywodraethu yn ystod 2024/25.

Llwyddir i gefnogi aelodau llai ym maes gofal plant sy’n cael eu rhedeg gan elusennau drwy amrywiol ffyrdd gan gynnwys cyllid, cymorth busnes ac ymgysylltu â gwirfoddolwyr. Mae pob aelod ‘nid er elw’ yn cael ei nodi a’i ychwanegu at y gronfa ddata llywodraethu, rydyn ni’n gwirio bod eu statws cyfreithiol yn cyd-fynd â’u cofrestriad gydag Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), Tŷ’r Cwmnïau, a’r Comisiwn Elusennau.

> Mae wedi bod yn hyfryd cael gweithio gyda chi eleni, mae eich gwaith a’ch cefnogaeth i ni yn amhrisiadwy. Diolch am eich holl gefnogaeth a’ch caredigrwydd.
>
> **Y Comisiwn Elusennau**

> WOW, o’n i ddim yn disgwyl i chi wneud hyn i gyd i ni, mae hyn yn wych, o’n i ddim yn gwybod ble i ddechrau, fe wna i rannu hyn gyda'n cyfrifydd, diolch.
>
> **Unigolyn Cyfrifol (Pennaeth Ysgol/Cadeirydd Elusen)**

# Gweithio mewn Partneriaeth â Sefydliad Moondance er mwyn cael Sector Blynyddoedd Cynnar Gwell yng Nghymru

## Ehangu Mynediad a Chynyddu Aelodaeth

Yn 2024/25, roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru yn falch o allu cynnig aelodaeth am ddim i warchodwyr plant a darparwyr gwirfoddol a reolir, cam oedd yn bosib yn sgil grant hael o £25,060 gan Sefydliad Moondance. Drwy’r gefnogaeth hanfodol hon, fe lwyddon ni i gael gwared ar rwystrau ariannol ac i gryfhau ein rhwydwaith yn ystod blwyddyn heriol i'r sector.

Roedd yr effaith yn drawsnewidiol. Erbyn diwedd 2025, roedden ni wedi sicrhau twf sylweddol yn nifer yr aelodau ar draws y ddau sector. Gwelodd ein haelodaeth ymhlith gwarchodwyr plant **gynnydd o 3%**, gan gyrraedd cyfanswm o **285** o aelodau. Gwelodd y darparwyr gwirfoddol a reolir dwf hyd yn oed yn fwy rhyfeddol, gyda nifer yr aelodau’n **codi 14%** i gyrraedd **277** o aelodau.

Mae'r twf hwn yn adlewyrchu'r gwerth gwirioneddol mae ein cymorth yn ei ddarparu a'r ymddiriedaeth barhaus sydd yn ein gwaith ledled Cymru. Mae'r bartneriaeth gyda Sefydliad Moondance wedi bod yn allweddol o ran gwneud cymorth proffesiynol o safon yn hygyrch i bawb, waeth beth fo'u hamgylchiadau ariannol.



"Diolch yn fawr am eich holl help, tipyn o lanast a dweud y gwir, wn i ddim beth fydden ni'n ei wneud hebddoch chi ar ben arall y lein. Mae fy lefelau straen i drwy'r to, ond rydych chi mor garedig a chymwynasgar, mae'n gwneud i fi deimlo gymaint gwell, mae yna olau ym mhen draw'r twnnel."

**Ymddiriedolwr/Cadeirydd**



QfA
Quality for All
helpu plant gyrraedd eu potensial
helping children reach their potential

# Cynllun Sicrhau Ansawdd Blynyddoedd Cynnar Cymru

Mae ein gwaith sicrhau ansawdd i gefnogi arferion rhagorol yn y sector wedi parhau yn 2024/2025. Gan ymateb i adborth, rydyn ni wedi gwella'r broses er mwyn cefnogi darparwyr i'w chwblhau'n amserol gyda chymorth proffesiynol drwy gydol y broses.

Cychwynnol
- Dau wedi'u prynu
- Wyth wedi'u cwblhau (wedi'u cyflawni)

Ail-achrediad
- Tri wedi'u prynu
- Un wedi'i gyflawni

> Mae cynllun Ansawdd i Bawb wedi gwella'n sylweddol. Dydy'r broses ddim yn rhy frawychus gan fod cyfle i'r tîm staff gydweithio, myfyrio ac ystyried pob agwedd ar ein harferion. Cyfle gwych i gefnogi Rheolwyr ac Arweinwyr sy'n newydd i'w swyddi gyda'u datblygiad personol o ran dealltwriaeth o bwysigrwydd safonau ansawdd yn y Sector Blynyddoedd Cynnar.

> Fel rhywun sy'n cwblhau cynllun Ansawdd i Bawb am y tro cyntaf, mae wedi ei gynnal yn broffesiynol ac mae pawb rydw i wedi bod mewn cysylltiad â nhw wedi bod yn groesawgar ac yn gymwynasgar iawn gydag unrhyw ymholiadau sydd gen i.

# Roedd gwasanaethau pellach i aelodau yn cynnwys:

**E-Fwletin misol:**
Diweddariadau ar bolisi, hyfforddiant, a chyfleoedd unigryw.

**Cylchgrawn *small*talk:**
Cyhoeddiad tymhorol sy'n ymdrin â themâu allweddol yn y sector (e.e., cynaliadwyedd, symud a maeth).

**Hyfforddiant a Chymorth Polisi Pwrpasol:**
Canllawiau arweinyddiaeth, gan gynnwys hyfforddiant ar weithredu Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol.

**Pecynnau Polisi Hanfodol:**
Adnoddau ar gyfer darparwyr gwirfoddol, gan gynnwys templedi cyllid, canllawiau ar gydymffurfio â'r GDPR, a phecynnau cymorth llywodraethu.

**Cyflwyno cyhoeddiad cyfnodol newydd – Y Bwletin Busnes, ym mis Mawrth 2024:**
Thema'r rhifyn cyntaf oedd Pobl a'r Gyflogres. Sefydlwyd y cyfnodolyn hwn er mwyn cefnogi busnesau blynyddoedd cynnar gyda'r heriau newidiol sy'n eu hwynebu, boed yn newidiadau penodol i'r sector neu'n newidiadau ehangach sy'n effeithio ar bob busnes.



# Gweithlu cymwys, medrus y rhoddir gwerth arno ar bob lefel (gan gynnwys gwirfoddolwyr a rheolwyr gwirfoddolwyr)

## Beth wnaethon ni

**Darparwyd 75 o gyfleoedd hyfforddi, ynghyd ag wyth sesiwn Cinio a Dysgu ar draws tri thymor yn ystod 2024/25, a daeth 750 o fynychwyr i gyd.** Mae ein cynllunwyr hyfforddi yn amlinellu'r hyfforddiant sydd ar gael ar draws holl amrywiaeth diddordebau ein haelodau ac yn cael eu diweddaru bob chwarter. Mae'r arlwy rydyn ni'n ei ddarparu yn cynnwys helpu gydag arweinyddiaeth a rheolaeth, ymarfer ac addysgeg, a diweddaru polisïau a gweithdrefnau.

## Dysgu Sylfaen

**Chwilfrydig am y Cwricwlwm**
Mae'r rhaglen Dysgu Sylfaen wedi parhau i gynnig cymorth hanfodol i'r rhai sy'n gweithio gyda'r cwricwlwm ar gyfer lleoliadau meithrin nas cynhelir. Nod y sesiynau a gynigir drwy gyfres Chwilfrydig am y Cwricwlwm yw archwilio peth o'r camddeall a'r camgyfathrebu sy'n gyffredin, yn ogystal â hysbysu ymarferwyr am y diweddaraf ac ateb cwestiynau. Mae'r adborth wedi bod yn gadarnhaol, gyda'r cyfranogwyr yn gwerthfawrogi strwythur y sesiynau a pha mor anffurfiol a hygyrch ydyn nhw.

**Chwarae Hunan-gyfeiriedig a Niwroamrywiaeth mewn Plentyndod Cynnar**
Ym mis Ionawr 2025, cyflwynwyd sesiwn Chwarae Hunan-gyfeiriedig a Niwroamrywiaeth mewn Plentyndod Cynnar, o dan arweiniad yr arbenigwr plentyndod cynnar a niwroamrywiaeth Kerry Murphy. Roedd y sesiwn yn herio'r myth bod angen dysgu plant niwroamrywiol a/neu anabl sut i chwarae mewn ffordd benodol. Drwy sbectol sy'n gadarnhaol am niwroamrywiaeth, bu'r ymarferwyr yn archwilio gwerth chwarae hunan-gyfeiriedig, patrymau chwarae amrywiol, a phwysigrwydd rhyddhau chwarae o ddisgwyliadau datblygiadol.

**Plentyn Actif**
Fel rhan o'n harlwy Dysgu Sylfaen, cyflwynwyd hyfforddiant Plentyn Actif i ymarferwyr blynyddoedd cynnar ac athrawon derbyn ar draws siroedd Abertawe, Powys a Chaerffili. Hyfforddiant wyneb yn wyneb yw hwn, sy'n cefnogi'r rhai sy'n gweithio gyda phlant 3–5 oed i ddeall yn well sut mae datblygiad corfforol yn sail i bob maes dysgu. Mae'r cwrs yn archwilio cynlluniau symud, dilyniant echddygol, ac amgylcheddau chwareus, gan helpu ymarferwyr i fod yn hyderus wrth ymgorffori symud egnïol a phwrpasol yn y cwricwlwm bob dydd.

**Ymagwedd Corff Cyfan tuag at Ddysgu yn y Blynyddoedd Cynnar**
Ym mis Mehefin 2024, fel rhan o'n rhaglen Dysgu Sylfaen, cynhaliwyd digwyddiad o'r enw "Ymagwedd Corff Cyfan tuag at Ddysgu yn y Blynyddoedd Cynnar". Roedd yr hyfforddiant undydd hwn, a gynhaliwyd ym Maenol Cwrt Colman, yn dod ag ymarferwyr blynyddoedd cynnar ynghyd i archwilio sut gall ymgysylltu â synhwyrau, symudiadau ac amgylchedd plant gefnogi datblygiad ar draws yr holl feysydd dysgu allweddol. Un o uchafbwyntiau'r diwrnod oedd prif gyflwyniad gan yr ymgynghorydd a'r awdur Sally Goddard-Blythe, a rannodd ei harbenigedd ar ddatblygiad corfforol a'r cysylltiad gyda dysgu. Cymerodd y cyfranogwyr ran hefyd mewn sesiynau ymarferol ac fe gawson nhw gyfle i rwydweithio, myfyrio a rhannu strategaethau arloesol ar gyfer cefnogi dysgu cyfannol mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.



> Rydw i wedi mwynhau'r cwrs yma'n fawr iawn ac wedi cael llawer o fudd ohono.

> Diwrnod gwych. Hyfforddiant anhygoel. Wir yn ddefnyddiol ac yn addysgiadol.

> Roedd yn addysgiadol iawn ac yn rhoi tawelwch meddwl i fi fy mod i'n darparu'r arferion gorau ar gyfer cefnogi'r plant ar fy llwyth achosion drwy chwarae.

> Cwrs diddorol iawn ac rwy'n teimlo y bydd o gymorth i'n lleoliad yn y dyfodol.

> Diolch i chi am ddod i'n lleoliad ac am hyfforddi cymaint o'n staff, mae'n golygu, fel uned PS1 gyfan, bod yr holl staff ar yr un dudalen ac yn deall pwysigrwydd symudiadau a sut mae'n helpu plant i ddysgu ymhellach i fyny'r ysgol.

## Diogelu yng Nghymru

Mae pob cwrs diogelu wedi'i ddiweddaru i gyd-fynd â'r categorïau newydd a amlinellir yn y Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Bu cynnydd nodedig yn nifer y bobl sy'n mynychu, yn enwedig ymhlith staff rheng flaen, sy'n adlewyrchu ymrwymiad cynyddol i arferion diogelu. Mae adborth gwerthuso yn dangos gwelliant amlwg yn hyder staff wrth fynd i'r afael â phryderon diogelu, gan ddangos effaith gadarnhaol yr ymagwedd hyfforddi ddiwygiedig.










- Dwy sesiwn Creu Diwylliant o Ddiogelu wedi'u cyflwyno
- Dau gwrs Diogelu B wedi'u cyflwyno
- Dau gwrs Diogelu C wedi'u cyflwyno
- 93 mynychwyn

**Rwy'n teimlo'n fwy cysylltiedig a gwybodus**

## Sesiynau Cinio a Dysgu

Fel rhan o'n hymrwymiad i ddatblygiad proffesiynol hygyrch, perthnasol ac effeithlon o ran amser, rydyn ni wedi cyflwyno cyfres o sesiynau Cinio a Dysgu sydd â'r nod o ddarparu cyfleoedd dysgu byr i ymarferwyr blynyddoedd cynnar.

Caiff y sesiynau anffurfiol, penodol hyn eu cyflwyno'n rhithwir a'u trefnu dros amser cinio, gan eu gwneud yn gyfleus i fynd iddynt heb darfu ar y diwrnod gwaith. Hanner awr ar y mwyaf yw pob sesiwn, sy'n ymdrin â thema neu faes ymarfer penodol, yn aml yn cyd-fynd â blaenoriaethau cyfredol y sector neu adborth gan ymarferwyr.

Roedd y pynciau'n cynnwys:
- Ansawdd i Bawb (Mai 2024)
- Diogelwch Plant (Mehefin 2024)
- Bwyd a Maeth (Gorffennaf 2024)
- Polisi Cyfnod Clo (Medi 2024)
- Hyfforddi Llesiant (Hydref 2024)
- Cynnig Gofal Cymdeithasol Cymru (Tachwedd 2024)
- Ysgolion Coedwig (Ionawr 2025)
- Little Magic Train (Mawrth 2025)

**Sesiynau rhwydweithio**
Hwyluswyd nifer o sesiynau rhwydweithio mewnol hefyd i annog cydweithio, rhannu gwybodaeth a datblygiad proffesiynol. Roedd y rhain yn cynnwys Bwletinau Brecwast a Rhwydweithiau Arweinwyr a Rheolwyr.



# Hyrwyddwyr Symud

#Hyrwyddwyr Symud

Mae hyfforddiant Hyrwyddwyr Symud wedi grymuso staff i hyrwyddo ffyrdd o fyw egnïol yn eu lleoliadau a'u cymunedau ehangach. Mae gan yr hyrwyddwyr wybodaeth am weithgarwch corfforol, technegau ysgogol, ac ymagweddau cynhwysol tuag at symud. Ym mis Chwefror 2025, cyflwynwyd ein cwrs Plant Egnïol (ar-lein) i **18 o leoliadau / unigolion** sydd wedi cofrestru i fod yn Hyrwyddwyr Symud.

> Cwrs hyfryd llawn egni, roedd hi'n hyfryd cael rhannu syniadau ar draws llwyfan eang o wahanol leoliadau.

> Roedd y cwrs yn arbennig, roedd hi'n wych gallu rhannu syniadau gydag ymarferwyr eraill. Roedd cynnwys y cwrs yn wych, a'r ffordd roedd yn cael ei ddarparu. Fe fyddwn i wrth fy modd yn gwneud cwrs wyneb yn wyneb fel y gallen ni wneud mwy o ganu ac ymarfer corff gyda'n gilydd.

## Ymagwedd Anghydamserol a Hyfforddiant Llesiant

Hyd yn hyn, mae'r fformat dysgu anghydamserol wedi darparu opsiynau dysgu hyblyg i **23 o dimau staff / gweithwyr proffesiynol**. Mae'r modiwlau'n cwmpasu Babi Actif a Phlentyn Bach Actif, pob un wedi'u cynllunio i'w cwblhau mewn llai na 95 munud.

Ar ôl eu cwblhau, mae dysgwyr yn cwblhau asesiad deg munud o hyd ar-lein. Mae marc pasio o 80% yn rhoi mynediad llawn at adnoddau cysylltiedig a thystysgrif cwblhau.

Yn ogystal, cynhaliwyd **tair sesiwn** hyfforddi llesiant i gefnogi arweinyddiaeth yn y Blynyddoedd Cynnar drwy Den Early Years.

## Cynigion hyfforddi ychwanegol

Yn ogystal â'n rhaglenni craidd, rydyn ni wedi dylunio a chyflwyno cyfres o hyfforddiant ychwanegol sy'n cefnogi'r sector yn uniongyrchol, wedi'u siapio ar sail gwybodaeth a gasglwyd drwy Ddadansoddiad o Anghenion Hyfforddi.

Cyflwynwyd y rhain mewn partneriaeth ag arbenigwyr o'r sector, gan gynnwys:

- Tŷ bach gyda'n gilydd – Primary Steps
- Cymryd risgiau wrth chwarae – Chwarae Cymru
- Cyflwyniad i ofal plant – Blynyddoedd Cynnar Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru
- Llwybrau datblygiad amrywiol – Kerry Murphy
- Y Cylch Cymraeg – Matt Anthony, Blynyddoedd Cynnar Cymru
- Gwneud chwarae'n ganolog i gynhwysiant – Dr Sharon Colillies




> Roedd yr hyfforddiant yn llawn gwybodaeth.
> Diolch yn fawr.
>
> **Y Cylch Cymraeg**

> Roedd y sesiwn wedi'i chyflwyno'n dda, ac fe wnes i wir fwynhau gwrando ar Kerry Murphy. Gyda chymaint o wybodaeth yn cael ei rhannu yn ystod y sesiwn, roedd fy meddwl i wedi blino'n lân erbyn y diwedd (canmoliaeth yw hynny!). Mae angen i fi ail-ddarllen fy nodiadau a mynd yn ôl drwy'r sleidiau er mwyn fy helpu i gofio'r wybodaeth.
>
> **Llwybrau Datblygiad Plentyndod Cynnar Amrywiol**

> Roedd hi'n glir pa mor bwysig yw dod i nabod y plentyn a deall beth sy'n gweithio orau iddyn nhw, y ffaith bod pawb yn wahanol, a'r ffaith bod rhaid i ni arsylwi a myfyrio.
>
> **Llwybrau Datblygiad Plentyndod Cynnar Amrywiol**

# Sylw ar ein partneriaethau cyflawni allanol

Wrth wraidd ein dull o gyflawni, sy'n esblygu o hyd, mae ymrwymiad cryf i weithio mewn cydweithrediad gwirioneddol â phartneriaid allanol er mwyn ehangu ein heffaith ac ymestyn ein cyrhaeddiad. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae ein gwaith gyda sefydliadau allanol wedi bod yn allweddol o ran siapio a chyflwyno arlwy perthnasol o ansawdd uchel sy'n cefnogi ymarferwyr sy'n gweithio ar draws y sector blynyddoedd cynnar.



> Fe fwynheais i'r cwrs yn fawr iawn, roedd y tiwtor yn hyfryd ac fe rannodd lawer o wybodaeth gyda ni ar sut i ymgorffori cynnwys y cwrs yn ein lleoliad. Fe ddaeth hi â llawer o adnoddau gyda hi hefyd i ni edrych arnyn nhw.

## Dull Symud o arfer anhiliaeth i arfer gwrth-hiliol

Un maes datblygu allweddol fu ein dull hyfforddiant Symud o arfer anhiliaeth i arfer gwrth-hiliol. Mae'r hyfforddiant dwy ran hwn wedi'i gynllunio a'i arwain yn fewnol, gyda mewnbwn gan leisiau arbenigol a phartneriaid allanol sy'n ymrwymedig i gydraddoldeb hiliol. Mae ein ffocws wedi bod ar arfogi ymarferwyr blynyddoedd cynnar gyda'r offer ymarferol, y mannau myfyriol, a'r iaith sydd eu hangen i weithio'n weithredol tuag at ddod yn wrth-hiliol yn eu lleoliadau. Mae'r cynnwys wedi'i lywio gan brofiad byw, ymchwil gyfredol, ac arfer gorau ledled y sector.

> Hyfforddiant da iawn, defnyddiol iawn. Fe wnaeth yr hyfforddwr i fi deimlo'n gyfforddus ac roedd yn hapus i ateb cwestiynau a thrafod sefyllfaoedd.

Fe gawson ni gomisiwn ac fe ddarparon ni hyfforddiant Symud o arfer anhiliaeth i arfer gwrth-hiliol i'r awdurdodau lleol canlynol:

- Merthyr Tudful
- Caerdydd
- Castell-nedd Port Talbot
- Sir y Fflint

# Cynigion Symudiad Actif

Rydyn ni wedi parhau i gryfhau ein Cynigian Symuduad Actif, sef cyfres o adnoddau a chyfleoedd hyfforddi a ddatblygwyd i annog llythrennedd corfforol ac arferion iach o gamau cynharaf plentyndod. Mae’r ddarpariaeth wedi'i datblygu'n fewnol, ac wedi’i gryfhau ymhellach drwy bartneriaeth â Den Early Years sy'n arbenigo mewn babanod. Mae'r cydweithio hwn wedi ein galluogi i deilwra’r dulliau cyflwyno, mireinio’r cynnwys, ac ehangu cyrhaeddiad ledled Cymru.





Mae ein darpariaeth i bartneriaid allanol ac awdurdodau lleol yn dal i gael ei hategu gan gyd-werthoedd, dysgu gan ein gilydd, a phwyslais ar effaith hirdymor ar blant a theuluoedd. Wrth i ni edrych ymlaen, rydyn ni’n dal i fod yn ymrwymedig i ddyfnhau'r partneriaethau hyn a'r arlwy o hyfforddiant rydyn ni’n ei gynnig.

Mae mwy am hyn ar dudalen 26.

# Rhaglen Camau Cymraeg Gwaith – Cefnogi Hyder, Cysondeb a Diwylliant yng Ngweithlu'r Blynyddoedd Cynnar

**Mae cefnogi gweithlu'r blynyddoedd cynnar i ddatblygu eu sgiliau yn y Gymraeg yn dal i fod yn elfen ganolog o'n gwaith. Drwy raglen Camau Cymraeg Gwaith, rydyn ni'n dal i gynnig cyfleoedd dysgu strwythuredig, hygyrch, a phwrpasol sy'n benodol i'r sector, ac sy'n helpu'r gweithlu i wneud cyfraniad ystyrlon at y cynllun cenedlaethol, Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr.**

## Ymgysylltiad Cryf a Hyder Cynyddol

Mae diddordeb yn rhaglen Camau wedi bod yn arbennig o gryf ar lefel Mynediad eleni, gyda **205 o ymarferwyr** yn cofrestru a **113 yn cwblhau'r rhaglen**. Mae'r nifer trawiadol hwn yn dangos bod diddordeb cynyddol yn y Gymraeg ymhlith gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar a newid cadarnhaol mewn agweddau tuag at ddefnyddio'r iaith, hyd yn oed ymhlith y rhai sydd heb ddim profiad blaenorol.

Yn aml, adroddodd cyfranogwyr fod ganddynt fwy o hyder a theimlad o gyflawniad go iawn wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd gyda phlant, teuluoedd a chydweithwyr.

> O'n i'n arfer poeni am ddweud dim byd rhag ofn i fi gael pethau'n anghywir. Nawr dw i'n trio ychydig bach bob dydd ac mae'r plant yn dysgu gyda fi!

## Dilyniant drwy'r Lefelau

**Lefel sylfaen:** Cofrestrodd 21 o ddysgwyr a chwblhaodd 11 y rhaglen.

**Lefel ganolradd:** Cofrestrodd 4 ymarferydd ac fe gwblhaodd 2.

Er eu bod yn llai o ran graddfa, mae'r ffigurau hyn yn arwyddocaol—maent yn dangos bod dysgwyr nid yn unig yn meithrin sgiliau sylfaenol yn y Gymraeg ond eu bod yn mynd ati i ddewis datblygu a dyfnhau eu gallu.

> Dw i bellach yn gallu arwain sesiynau byr yn gyfan gwbl yn y Gymraeg. O'n i byth yn meddwl y byddwn i'n cyrraedd y pwynt yna. Mae'r hyfforddiant wir wedi newid yr hyn o'n i'n meddwl oedd yn bosib.



## Cymorth Parhaus Cynhwysfawr

> Fe wnaeth cael rhywun yn dod i'r lleoliad ar ôl y cwrs wahaniaeth mawr. Roedden ni'n gallu gweld sut i ddod â'r Gymraeg i mewn i'n bywyd bob dydd go iawn.

> Mae'n galonogol gwybod bod mwy y galla i ei wneud ar ôl y cwrs. Dydw i ddim yn cael fy ngadael i weithio pethau allan ar fy mhen fy hunan.

Cliciwch yma i ddarllen sut mae Camau wedi trawsnewid arfer un o leoliadau ein haelodau.

Mae llwyddiant Camau nid yn unig yn ansawdd yr hyfforddiant, ond yn y cymorth parhaus sy'n helpu ymarferwyr i ymgorffori eu dysgu yn ymarferol. Drwy gymysgedd o gymorth wyneb yn wyneb, digidol, a chefnogaeth drwy adnoddau, fe greon ni lwybr cynaliadwy, cefnogol ac ymatebol ar gyfer datblygu'r Gymraeg.

Darparwyd cymorth drwy:
- Sesiynau Dilynol Wyneb yn Wyneb
- Dathlu a Chymorth Drwy Gyfrwng E-bost
- Sesiynau Gwirio Sut Mae Pethau a Galw Heibio ar Microsoft Teams
- Mynediad at Adnoddau Dwyieithog
- Cyfeirio Pobl a Llwybrau Cynnydd

# Datblygu'r Gymraeg drwy Gynllun Plethu

**Mae Cynllun Plethu wedi parhau i chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o gefnogi lleoliadau blynyddoedd cynnar ledled Cymru i gryfhau eu darpariaeth Gymraeg. Gan weithio'n agos gyda thri lleoliad sy'n cymryd rhan ar wahanol gamau o'u taith ddwyieithog, mae'r prosiect wedi helpu i feithrin amgylcheddau lle mae'r Gymraeg yn cael ei gweld a'i chlywed, lle mae wedi'i hymgorf fori'n ystyrlon mewn arferion bob dydd, a lle mae’n cael ei dathlu fel rhan o hunaniaeth plant a'u hymdeimlad o le. Mae'r tri lleoliad wedi gweddnewid eu defnydd o'r Gymraeg ac yn symud tuag at ddarpariaeth drochi Gymraeg.**

Mae pob lleoliad yn dal i gael cymorth wedi'i deilwra drwy gyfuniad o hyfforddiant strwythuredig, mentora ymarferol, a chynlluniau gweithredu sy'n canolbwyntio ar amcanion. Fe wnaeth pob lleoliad gymryd rhan yn rhaglen hyfforddi Cymraeg Gwaith, Camau, gyda staff yn cael eu cefnogi i gwblhau modiwlau priodol i'w lefel, o lefel mynediad i lefel ganolradd.

Atgyfnerthwyd y dysgu drwy sesiynau cymorth hyfforddi, oedd yn cael eu cyflwyno bob tymor ar y safle neu ar-lein, yn dibynnu ar anghenion y dysgwyr. Roedd y sesiynau hyn yn rhoi hyder i staff ddefnyddio’r Gymraeg mewn cyd-destunau go iawn gyda phlant, fel cyfarchion, amser cyrraedd a ffarwelio, adrodd straeon a chanu.

Cafodd rhieni eu cynnwys drwy gylchlythyrau dwyieithog, taflenni caneuon a digwyddiadau diwylliannol, gan helpu i ymestyn amlygiad plant i'r Gymraeg i mewn i'r cartref. Ymatebodd y plant ar draws pob lleoliad yn gadarnhaol, gan ailadrodd ymadroddion allweddol a dangos brwdfrydedd dros arferion, straeon a chaneuon Cymraeg.

Yn ogystal â chymorth oedd yn canolbwyntio ar iaith, darparwyd canllawiau busnes strategol pan oedd angen. Roedd hyn yn cynnwys datblygu polisïau, llywodraethiant pwyllgorau, a chynllunio cynaliadwyedd, gan sicrhau bod lleoliadau nid yn unig yn gwella’n ieithyddol ond hefyd eu bod yn strwythurol wydn.

Cynhaliwyd 15 o ymweliadau datblygu wyneb yn wyneb ar draws y tri lleoliad, gan gefnogi gyda’r canlynol:

- Modelu arferion dwyieithog mewn amser go iawn
- Hyfforddi myfyriol ac adborth ar ôl arsylwi
- Cymorth gyda chynlluniau gweithredu ar gyfer yr Addewid Cymraeg
- Creu arddangosfeydd dwyieithog a deunyddiau gweledol ar y cyd

Gwnaeth pob lleoliad gynnydd mesuradwy:

- Enillodd un lleoliad wobrau Efydd ac Arian yr Addewid Cymraeg, gydag ymrwymiad clir i ddwyieithrwydd ar draws y lleoliad.
- Penderfynodd un arall ddyfnhau’r defnydd o Gymraeg achlysurol, ymgysylltu’n hyderus â rhieni’n ddwyieithog, a dangos parodrwydd i ehangu’r ddarpariaeth.
- Aeth y trydydd ati i gyflwyno’r Gymraeg mewn ffordd gefnogol a chynhwysol, gyda staff yn meithrin sgiliau'n raddol a phenodi Hyrwyddwr y Gymraeg.



## Casgliad

Mae Cynllun Plethu wedi profi i fod yn fwy na dim ond cynllun ar gyfer yr iaith; mae'n fframwaith datblygu capasiti sy'n cefnogi twf proffesiynol, yn cryfhau diwylliant y lleoliad, ac yn cyfoethogi profiadau cynnar plant gyda'r Gymraeg. Mae cynnydd y tri lleoliad sydd wedi bod yn cymryd rhan yn adlewyrchu effaith cymorth cydweithredol, ymatebol a pharhaus.

# Cymorth i rieni plant yn y blynyddoedd cynnar; cymorth i grwpiau dan arweiniad rhieni (e.e. grwpiau Rhieni a Phlant Bach)

## Beth wnaethon ni

## Ein gwaith gyda Chwaraeon RhCT | Trosolwg o'r Prosiect:

**Comisiynwyd Blynyddoedd Cynnar Cymru gan Chwaraeon RhCT i weithredu Partneriaeth Cyflawni'r 1000 Diwrnod Cyntaf, gan ganolbwyntio ar ddatblygu a chyflwyno gwasanaethau Babanod Actif ar draws ardal Rhondda Cynon Taf. Mae'r rhaglen hon yn rhan o strategaeth ehangach i ymgorffori symudiad a gweithgarwch corfforol yng nghyfnodau cynnar hollbwysig datblygiad plant – gan ddechrau adeg genedigaeth.**

Mae'r 1000 diwrnod cyntaf o fywyd (o'r cenhedlu hyd at ddwy oed) bellach yn cael eu cydnabod yn eang fel cyfnod sy'n gosod sylfaen hollbwysig ar gyfer llesiant corfforol, emosiynol a gwybyddol hirdymor. Nod y gwaith comisiwn yw codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd y cyfnod i ddatblygiad plant ymhlith rhieni, gofalwyr a gweithwyr proffesiynol blynyddoedd cynnar, gan ddefnyddio symudiad fel offeryn ymyrraeth allweddol.

### Teitl y prosiect: Partneriaeth Cyflawni'r 1000 Diwrnod Cyntaf – Gwasanaethau Babanod Actif

O dan Gytundeb Lefel Gwasanaeth ffurfiol, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru wedi cael ei gomisiynu gan Chwaraeon RhCT i arwain ar y gwaith o ddarparu a chyflwyno gwasanaethau Babanod Egnïol ar draws Cymoedd Rhondda Cynon Taf.

Mae'r fenter hon yn rhan o Bartneriaeth Cyflawni'r 1000 Diwrnod Cyntaf ehangach, sy'n canolbwyntio ar bwysigrwydd hanfodol symudiad cynnar a datblygiad corfforol o enedigaeth hyd at ddwy oed.

### Nod y bartneriaeth

- Tynnu rhieni a gofalwyr i mewn i'r gwaith o hyrwyddo symudiad o'r enedigaeth ymlaen.
- Codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd datblygiad corfforol mewn babanod yn ystod y 1000 diwrnod cyntaf.
- Cefnogi teuluoedd gydag offer ac arweiniad sy'n annog arferion symud cynnar iach gartref.

### Gweithgaredd

Mae cyflwyno'r negeseuon wedi dechrau drwy rwydwaith o hwyluswyr hyfforddedig sydd wedi cwblhau'r llwybr hyfforddi llawn: Babanod Egnïol, Plant Bach Egnïol, a'r rhaglen ddeuddydd Babanod Egnïol Gartref. Mae'r ymagwedd hon bellach yn cael ei hymgorffori mewn lleoliadau meithrin ac ardaloedd cymunedol lleol, gan sicrhau bod negeseuon cyson yn cyrraedd teuluoedd ar draws pob rhan o'r gymuned. Mae'r hwyluswyr yn cyflwyno sesiynau sy'n cynnig cymorth ymarferol i rieni a gofalwyr. Maent hefyd yn hyrwyddo dealltwriaeth o sut mae symudiad cynnar yn cefnogi datblygiad corfforol a gwybyddol mewn babanod.




## Monitro a Chymorth

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn mynd ati i fonitro ansawdd y ddarpariaeth er mwyn sicrhau cysondeb ac effaith ystyrlon ar draws pob sesiwn. Mae pob teulu sy'n cymryd rhan yn cael Pecynnau Babanod Egnïol pwrpasol, sydd â'r nod:

- o atgyfnerthu negeseuon allweddol sy'n cael eu cyflwyno yn ystod sesiynau.
- o ddarparu gweithgareddau syml a difyr i deuluoedd eu defnyddio gartref.
- o annog parhad chwarae sy'n seiliedig ar symud mewn arferion bob dydd.

# Babi Actif yn y Cartref – Model Hyfforddi'r Hyfforddwyr

**Yn ogystal â darparu'n uniongyrchol, rydyn ni wedi parhau i ddarparu'r model Babi Actif yn y Cartref – Hyfforddi'r Hyfforddwyr er mwyn ymestyn ein cyrhaeddiad ledled Cymru.**

Meysydd sy'n ymwneud â model Hyfforddi'r Hyfforddwyr Babi Actif yn y Cartref ar hyn o bryd:

- Abertawe
- Pen-y-bont ar Ogwr
- Merthyr Tudful
- Rhondda Cynon Taf

**Mae'r model hwn yn grymuso gweithwyr proffesiynol lleol i ddarparu negeseuon a chymorth Babi Actif cyson yn annibynnol, gydag adnoddau ac arweiniad gan Blynyddoedd Cynnar Cymru.**

# Datblygiad Newydd: Rhaglen chwech wythnos Symudwyr sy'n Tyfu




Rydyn ni hefyd wedi datblygu a dechrau cyflwyno rhaglen Symudwyr sy'n Tyfu, gan ehangu ein darpariaeth cymorth blynyddoedd cynnar ymhellach. Mae'r ffrwd hon yn canolbwyntio ar ddatblygiad cynnar cyfannol ac yn ategu'r gwaith Babi Actif yn y Cartref drwy hyrwyddo twf gwybyddol ac emosiynol ochr yn ochr â symudiad corfforol ar gyfer babanod 8-15 mis oed.

Mae hyn yn cael ei gyflwyno i deuluoedd yn Rhondda Cynon Taf ar hyn o bryd gyda chymorth gan leoliadau lleol.

## Cyrsiau Llythrennedd Corfforol

- Daeth 39 o ymarferwyr i hyfforddiant Babi Actif yn Rhondda Cynon Taf
- Daeth 32 o ymarferwyr i hyfforddiant Plentyn Bach Actif yn Rhondda Cynon Taf
- Mae 45 o ymarferwyr ar draws Abertawe, Merthyr Tudful, Pen-y-bont ar Ogwr a Rhondda Cynon Taf sydd bellach wedi'u hyfforddi i ddarparu rhaglen Babanod Egnïol yn y Cartref

> Cwrs hollol wych. Pleser pur ac mor ddiddorol. Yn edrych ymlaen at gyflwyno sesiynau i deuluoedd.

> Fe ddylai pawb sy'n feichiog, sydd â phlentyn neu sy'n gweithio gyda phlant gael yr hyfforddiant yma, mae'n hanfodol ac fe allai wneud gwahaniaeth enfawr!






# Camu at y Gymraeg yn Sain Ffagan; Caneuon, Straeon a Symud

O fis Medi tan fis Mawrth, fe gyflwynon ni **Camu at y Gymraeg** mewn cydweithrediad â'r Amgueddfa Werin yn Sain Ffagan, gan gyflwyno teuluoedd ifanc i'r Gymraeg drwy sesiynau chwareus oedd yn briodol i ddatblygiad y plant. Roedd y rhaglen yn integreiddio dysgu iaith â datblygiad corfforol, a bu **55 o deuluoedd** yn cymryd rhan ar draws sesiynau babanod (6 wythnos-12 mis) a phlant bach (12+ mis).

Cynlluniwyd pob sesiwn yn ofalus i adlewyrchu anghenion datblygiadol. Roedd sesiynau babanod yn defnyddio symudiadau ysgafn a iaith rhythmig, gan ymgorffori ymadroddion Cymraeg fel 'Codi! Codi!' yn ystod symudiadau codi. Roedd sesiynau plant bach yn cynnwys adrodd straeon deinamig lle'r oedd plant yn dilyn gorchmynion Cymraeg fel 'Dewch yma' wrth neidio neu glapio, gan gefnogi caffael iaith a datblygiad echddygol bras.

Roedd ymagwedd arloesol y rhaglen yn cysylltu symud a chadw iaith – gweithgareddau'n canolbwyntio ar groesi'r llinell ganol, cydlyniad llaw-llygad, ac integreiddio synhwyraidd, a hynny i gyd wrth ymgorffori'r Gymraeg yn naturiol mewn chwarae corfforol. Cafodd straeon eu paru â chamau datblygiadol, o adrodd straeon gweledol syml i fabanod, i naratifau rhyngweithiol lle roedd plant bach yn actio geiriau a synau Cymraeg.

Tynnodd adborth rhieni sylw at hygyrchedd ac effaith y rhaglen: ***"Sesiynau symud rhydd Cymraeg ardderchog mewn lleoliad gwych"*** a ***"Hamddenol iawn... Wir wedi mwynhau. Diolch."***

Magodd teuluoedd hyder wrth ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd bob dydd gan ddeall y cysylltiad pwerus rhwng symudiad a datblygiad iaith.

**Mae'r cywaith hwn gyda Sain Ffagan yn enghraifft o'n hymrwymiad i wneud dysgu'r Gymraeg yn gynhwysol, yn ddiddorol, ac yn ddatblygiadol gadarn – gan greu profiadau cynnar cadarnhaol sy'n cefnogi dwyieithrwydd gydol oes.**




# Cydweith Cymraeg – Magu Hyder Teulu yn y Gymraeg

**Bu rhaglen Cydweith Cymraeg yn ymwneud â thros 60 o deuluoedd ledled Cymru drwy sesiynau dwyieithog rhyngweithiol oedd yn dod â phlant a rhieni ynghyd i ddysgu Cymraeg gyda'i gilydd. Roedd y rhaglen, oedd yn cael ei chyflwyno mewn grwpiau chwarae cymunedol, meithrinfeydd, a grwpiau rhieni a phlant bach, yn canolbwyntio ar feithrin hyder mewn Cymraeg bob dydd drwy ganeuon, straeon a gweithgareddau gyda'i gilydd.**

Roedd teuluoedd yn ymuno ar lefelau amrywiol—rhai gyda fawr ddim Cymraeg, neu ddim o gwbl, eraill yn paratoi ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg. Roedd cryfder y rhaglen yn gorwedd yn yr ymagwedd ysgafn, pwysau isel oedd yn creu mannau diogel lle gallai'r Gymraeg gael ei chlywed, ei hailadrodd a'i mwynhau'n naturiol.

Roedd yn cael effaith unionsyth a pharhaol. Adroddodd rhieni eu bod yn defnyddio'r Gymraeg gartref—yn cyfarch gyda "Bore da", yn canu caneuon dwyieithog, ac yn deall geiriau roedd eu plant yn eu defnyddio gartref. Roedd plant mor ifanc â chwe mis oed yn ymateb yn frwdfrydig, gyda theuluoedd yn synnu pa mor gyflym roedd plant yn ymddiddori pan oedd y Gymraeg yn cael ei chyflwyno drwy chwarae.




Yn hollbwysig, roedd yr effaith yn ymestyn y tu hwnt i'r sesiynau. Yn Sir Fynwy, dechreuodd plant ddefnyddio'r Gymraeg yn ddigymell wrth chwarae, gan annog rhieni i chwilio am adnoddau cartref. Dechreuodd sawl teulu archwilio cyfleoedd dysgu Cymraeg ychwanegol, wedi'u hysbrydoli gan gynnydd eu plant. Mae Cydweith Cymraeg yn dangos, pan gyflwynir y Gymraeg drwy gyd-brofiadau rhwng rhiant a phlentyn, ei bod yn dod yn rhan o fywyd teuluol —yn iaith fyw a'i sylfeini'n tyfu ymhell y tu hwnt i'r blynyddoedd cynnar.

> Dim ond cyfri i dri o'n i'n gallu gwneud yn Gymraeg i ddechrau. Erbyn hyn rydyn ni'n cyfri i 99 gartref!
>
> **Tad**

# Hyrwyddo dechrau cadarnhaol i bob plentyn drwy gydol eu blynyddoedd cynnar (0-5)

## Beth wnaethon ni

### Ymgyrch Hyrwyddwyr Symud

Mae Ymgyrch Hyrwyddwyr Symud yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd symud o ran datblygu sgiliau gwybyddol a galluoedd corfforol plant ifanc. Ym mis Ebrill 2025, roedd gan yr ymgyrch gyfanswm o 48 o bobl o bob cwr o'r wlad wedi cofrestru. Roedd y rhain yn cynnwys lleoliadau gofal plant cyfan, gwarchodwyr plant, Aelodau'r Senedd a sefydliadau'r trydydd sector.


#Hyrwyddwyr Symud




Mae gan yr ymgyrch thema gyffredinol, gan annog lleoliadau, gwarchodwyr plant, unigolion a sefydliadau i gofrestru, i gymryd asedau i'w helpu i hyrwyddo, ac i adrodd ar sut maen nhw'n gweithredu'r ymgyrch er mwyn cael tystysgrif.

### Taflen Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar

Cydweithiodd Blynyddoedd Cynnar Cymru â Llywodraeth Cymru i greu taflen hawdd ei darllen am y polisi **Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar** sydd wedi'i fabwysiadu gan Lywodraeth Cymru a'i weithredu mewn lleoliadau ar draws y wlad. Pwrpas y daflen yw helpu rhieni a gofalwyr i ddeall beth yw Chwarae, Dysgu a Gofal Plentyndod Cynnar, pam ei fod yn bwysig, a sut mae'r sector blynyddoedd cynnar yn ei ymgorffori yn eu harfer er mwyn cefnogi eu plentyn. Ail fantais i'r daflen hon yw codi ymwybyddiaeth rhieni am y gwaith hanfodol y mae'r sector blynyddoedd cynnar yn ei wneud er mwyn cefnogi datblygiad corfforol a gwybyddol plant, gan wella gwerth y sector yng ngolwg rhieni.






## Hyrwyddo'r Blynyddoedd Cynnar drwy Bolisi ac Eiriolaeth

Fel elusen anwleidyddol, mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfle i gyfrannu at Grwpiau Trawsbleidiol sy'n cael eu cynnull gan Aelodau'r Senedd. Yn 2024/2025, fe fuon ni'n cymryd rhan weithredol mewn **wyth** Grŵp Trawsbleidiol oedd yn canolbwyntio ar blant a thlodi, gan weithio ochr yn ochr ag ystod eang o randdeiliaid er mwyn cefnogi gwaith craffu gwybodus ar bolisïau a mentrau Llywodraeth Cymru.

Chwaraeodd ein Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth ran allweddol o ran siapio'r trafodaethau hyn—gan ddarparu tystiolaeth a data oedd yn cefnogi Aelodau'r Senedd yn eu datganiadau ar ofal plant a'r blynyddoedd cynnar yn ystod sesiynau llawn. Pan oedd hynny'n briodol, fe fuon ni hefyd yn ymgysylltu'n uniongyrchol â gweinidogion Llywodraeth Cymru, gan rannu dealltwriaeth a chodi pryderon oedd yn berthnasol i'r sector fel sail ar gyfer datblygiad polisi sy'n effeithio ar blant a theuluoedd ledled Cymru.

Drwy'r cyfraniadau hyn, rydyn ni'n parhau i sicrhau bod lleisiau a phrofiadau ein haelodau yn cael eu cynrychioli mewn sgyrsiau cenedlaethol.

### Diweddariadau polisi a gweithgor sector

Mae ein Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth yn cynnal **gweithgor polisi** rheolaidd sydd â'r nod o greu lle i aelodau fwydo'n uniongyrchol i mewn i alwadau polisi yn ogystal â datblygiad adnoddau. Mae'r sgyrsiau hyn yn llywio ein gwaith uniongyrchol gyda Llywodraeth Cymru mewn amrywiol gyfarfodydd megis adolygiadau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol, fforymau Gwaith Teg, a grwpiau gorchwyl a gorffen i sicrhau bod llais y sector yn cael ei glywed gan weision sifil.

### Gweithio mewn partneriaeth â Iechyd Cyhoeddus Cymru

Yn hydref 2024, penderfynodd Iechyd Cyhoeddus Cymru dynnu ynghyd weithgor o sefydliadau blynyddoedd cynnar, awdurdodau lleol, y trydydd sector, iechyd a rhanddeiliaid ehangach i ystyried drafft o 'Y Dechrau Gorau Mewn Bywyd: Fframwaith Gweithredu ar gyfer y Blynyddoedd Cynnar' a'r gwaith o'i gyhoeddi. Gan fod y gwaith hwn yn ganolog i'n cynllun strategol, roedd Blynyddoedd Cynnar Cymru wrth ein boddau'n cael cyfrannu'n helaeth at y ddogfen hon ac rydyn ni ymhlith y siaradwyr ar gyfer y digwyddiad lansio yn haf 2025.

# Eiriolaeth ar gyfer darparwyr a defnyddwyr addysg a gofal plentyndod cynnar

## Beth wnaethon ni

### Arolwg Iechyd Meddwl

Ddiwedd 2024 a dechrau 2025, cyhoeddodd Blynyddoedd Cynnar Cymru arolwg oedd â'r nod o gasglu gwybodaeth am lefelau **iechyd meddwl** ymhlith staff sy'n gweithio yn y sector blynyddoedd cynnar. Roedd yr arolwg yn darparu data oedd y cyntaf o'i fath yng Nghymru, gan roi cipolwg inni ar iechyd meddwl unigolion ar wahanol lefelau o gyflog, cyfrifoldeb a phrofiad yn y sector.

Mae canlyniadau'r arolwg yn dangos bod llawer o bobl sy'n gweithio ar draws holl sector blynyddoedd cynnar Cymru yn profi iechyd meddwl a llesiant negyddol. Maent yn adrodd mai achos hyn yn aml yw agweddau tuag at y sector, diffyg gwerth a chyflog, ac ansicrwydd ynghylch dyfodol eu bywoliaeth. Mae hyn yn arwain at rwystredigaeth aruthrol sy'n cael ei mynegi gan bawb, ar wahanol lefelau yn y sector a'r tu allan iddo. Gan staff iau, mae'n cael ei mynegi tuag at y rheolwyr, a gan staff lefel uwch, mynegir rhwystredigaeth tuag at ffactorau cymdeithasol ehangach. Mae'r breuder a'r ansefydlogrwydd meddyliol hwn sy'n cael ei deimlo ledled y sector yn awgrymu nad yw bob amser yn lle iach. Mae effaith cyflog isel a diffyg gwerthfawrogiad yn arwain at y teimladau hyn ar draws y sector cyfan.

### Y 1,000 Diwrnod Cyntaf; Hawl i Blentyndod

Ym mis Hydref, bu ein Prif Weithredwr yn siarad ar banel gwadd yn nigwyddiad y Grŵp Trawsbleidiol ar Blant a Theuluoedd, 'Y 1,000 Diwrnod Cyntaf; Hawl i Blentyndod.'

Ar banel oedd yn cynnwys Dr Liz Gregory (Parent and Infant Foundation), Clare Law (Blackpool Better Start), ac oedd yn cael ei gadeirio gan John Griffiths AS, soniodd ein Prif Weithredwr am y cyllid tameidiog mae'r sector blynyddoedd cynnar yn ei gael, a'r ffaith bod hyn yn ychwanegu cymhlethdod at y system i ddarparwyr a rhieni. Mewn cyflwyniad byr, y neges allweddol i'r Gweinidogion oedd y dylid defnyddio'r ysgogiadau polisi sydd ar gael er mwyn mynd i'r afael â heriau'r system a gwella proffil y sector ac amodau gwaith ynddo drwy fuddsoddi'n gynnar a chanolbwyntio ar fesurau ataliol yn hytrach na rhaglenni ymyrraeth diweddarach.

# Ein cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Diweddaru a gwella ein **cynnig aelodaeth** wrth i ni fynd yn ôl at godi tâl – drwy weithio gyda phartneriaid, a drwy ddiweddaru ein cynnyrch a'n gwasanaethau, bydd aelodau sy'n adnewyddu ac yn talu am aelodaeth am y tro cyntaf ers 2019 yn gweld sefydliad sydd wedi ymrwymo i welliannau system ac sy’n darparu gwerth am arian.

Datblygu ein **portffolio o gyfleoedd hyfforddi a dysgu** – mae'r sector blynyddoedd cynnar yn rhedeg ar gyllidebau tynn. Ein hymrwymiad yw darparu cyfleoedd datblygiad proffesiynol rhagorol sy'n gwella arferion ac arweinyddiaeth ar bob lefel.

Ailsefydlu ein **digwyddiadau teithiol rhanbarthol** – mae'r byd ôl-Covid yn wahanol, ac mae’r fforymau rhanbarthol oedd yn arfer cael eu cynnal, yn digwydd bellach drwy wahanol ddulliau technolegol. Fodd bynnag, mae'r amser yn iawn erbyn hyn i ni fynd yn ôl at ymweld ag aelodau yn eu rhanbarthau. Rydyn ni’n ailgychwyn hyn yn 2025 gyda'r bwriad y bydd digwyddiadau rhanbarthol i rannu arferion yn dod yn rhan arferol o’n calendr.

Cwblhau ein **prosiect tair blynedd gyda Chyngor Celfyddydau Cymru** ar Ddysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar – mae prosiect Dysgu Creadigol yn y Blynyddoedd Cynnar wedi bod yn archwiliad bendigedig o gydweithio ag artistiaid mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ledled Cymru. Yn 2025/26 daw'r prosiect tair blynedd hwn i ben. Ein gobaith fyddai parhau â'r gwaith y tu hwnt i hynny (yn amodol ar gyllid); fodd bynnag, byddwn yn anelu i sicrhau bod y dysgu allweddol, yr astudiaethau achos a'r arferion yn cael eu rhannu'n eang yn y sector a’r tu hwnt.

Adfywio ein **Cynhadledd Flynyddol**, gan ei gwneud yn hygyrch i bob aelod – mae gennym gynhadledd gyffrous wedi’i chynllunio ar gyfer 2025, gyda siaradwyr rhagorol. Rydyn ni’n darparu hyn i'n haelodau yn rhad ac am ddim. Ein gobaith yw gweld cynulleidfa fawr ar-lein i rannu myfyrdodau am arferion gofal plant a'r blynyddoedd cynnar.

Parhau â'r **Ymgyrch Hyrwyddwyr Symud** – gyda chyllid i gefnogi’r gwaith yn cael ei sicrhau gan Sefydliad KPMG, bydd Blynyddoedd Cynnar Cymru yn sbarduno'r ymgyrch hyrwyddwyr symud, yn bwrw ymlaen gyda’r gwaith o gynhyrchu adnoddau cefnogol ac yn casglu tystiolaeth o effaith symud ar ddatblygiad plant.

Lansio ein **maniffesto** ar gyfer y blynyddoedd cynnar er mwyn helpu'r sgwrs am wella'r system yng Nghymru – wrth anelu am etholiad 2026, mae Cymru ar groesffordd. Mae ganddon ni sail ar gyfer rhaglen gofal plant benodol a rhagweithiol i gefnogi teuluoedd. Byddwn yn lansio ein maniffesto i rannu ein gweledigaeth o’r camau y gallai'r llywodraeth newydd eu cymryd i wella'r sector ar gyfer plant, teuluoedd a’r gweithlu.

**Moderneiddio ein systemau** – yn 2025/2026 mae Blynyddoedd Cynnar Cymru:

- yn lansio gwefan newydd
- yn buddsoddi mewn system negeseuon WhatsApp i wella sut rydyn ni’n cyfathrebu â'r aelodau
- yn buddsoddi mewn deallusrwydd artiffisial i wella pa mor ymatebol a chynhyrchiol ydyn ni, ac
- yn gwella ein gallu i gynnig dysgu anghydamserol drwy ystod o gyfryngau

# Adolygiad Ariannol

## Adnoddau Incwm

Yr adnoddau incwm gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 oedd £901,804 (2024: £979,367). Roedd yr incwm o weithgareddau elusennol yn £872,761, sydd wedi gostwng o £935,630 yn 2024.

## Adnoddau a Wariwyd

Yr adnoddau a wariwyd yn ystod y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 oedd £994,126 (2024: £1,191,939).

## Canlyniadau

Yr adnoddau net yn mynd allan ar gyfer y flwyddyn oedd £130,845 (2024: £116,649). Cyn colledion buddsoddi o £38,523 (2024: enillion o £95,923), crëwyd diffyg anghyfyngedig o £83,215 (2024: diffyg o £196,124) a chrëwyd diffyg cyfyngedig o £9,107 (2024: diffyg o £16,448).

## Llif Arian

Mae llif arian yn dal i fod yn gryf; rydyn ni'n dal £313,833 (2024: £212,481) mewn arian.

## Prif Risgiau a Gweithgarwch

Y brif risg a nodwyd gan yr Ymddiriedolwyr yw ein dibyniaeth ar gyllid tymor byr. Rydyn ni'n dal i geisio lliniaru hyn drwy ehangu ein harlwy o hyfforddiant a drwy symud tuag at strategaethau a allai amrywiaethu ffynonellau incwm. Rydyn ni wedi diweddaru ein Memorandwm a'n Herthyglau Cymdeithasu i gefnogi'r nod strategol hwn.

## Seiberddiogelwch

Rydyn ni'n gweithio yn ôl egwyddorion arferion gorau Cyber Essentials. Mae'r holl ddata yn cael ei storio ac ar gael i'w gyrchu drwy borth wedi'i amgryptio yn unig. Mae'r holl gyfarpar yn cael ei fonitro bob chwe mis. Gwneir copi wrth gefn o'r holl ddata yn rheolaidd, a chedwir dau gopi unigryw rhag ofn i ddata gael ei golli.

## Polisi a Phwerau Buddsoddi

Gydag ystyriaeth i'r gofynion hylifedd, mae gan yr Ymddiriedolwyr bolisi o gadw'r gweddill arian parod mor isel â phosib a buddsoddi unrhyw warged mewn cyfrifon eraill. Mae anwadalrwydd y farchnad wedi effeithio ar y cronfeydd wrth gefn oedd wedi'u buddsoddi, ac ar ôl gosod cyllideb ddiffygiol, rydyn ni wedi defnyddio cyllid o'n cronfeydd wrth gefn i gefnogi ein nodau a'n hamcanion. Mae'r difidend rydyn ni'n ei gael o'r cronfeydd wrth gefn oedd wedi'u buddsoddi yn cael ei ddefnyddio fel incwm anghyfyngedig. Mae hwn wedi gostwng ychydig yn unol â'r dibrisiant cyfalaf cyffredinol yn y cyfrif hwn. Mae'r Bwrdd yn adolygu ein datganiad Polisi Buddsoddi yn flynyddol.

## Polisi Cronfeydd wrth Gefn

Rydyn ni wedi defnyddio peth o'n cronfeydd wrth gefn dros y flwyddyn ddiwethaf i ddarparu aelodaeth am ddim i'n haelodau, ac i ategu incwm er mwyn parhau â gwasanaethau y credwn eu bod yn hanfodol.

Mae'r Elusen yn cael cyllid allanol ar ffurf grantiau a chontractau i gefnogi ei gweithgareddau hollbwysig sy'n hyrwyddo amcanion elusennol. Mae ffynonellau ariannu o'r fath yn gallu newid ac ni ellir eu gwarantu. Yn ogystal, mae'r Elusen yn ymgymryd â gwaith sy'n cael ei yrru gan brosiectau y cawn incwm cyfyngedig amdano.

Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn bod costau rhedeg am ddeuddeg mis yn ddigonol ar gyfer achos o gyllid yn dod i ben. Mae'r defnydd o gronfeydd wrth gefn oedd wedi'u buddsoddi wedi cyfrannu at y canlynol:

- Gwasanaethau aelodaeth cymorth canolog
- Cymorth a chyngor llywodraethu
- Gwasanaethau datblygu a hyfforddi
- Gwasanaethau cyfieithu i'r Gymraeg
- Aelodaeth am ddim i aelodau.

Ar y dyddiadau adrodd, roedd y buddsoddiad yn £1,050,613 (2024: £1,170,595), yn cynrychioli cronfeydd anghyfyngedig namyn asedau diriaethol a symiau cyfyngedig. Cedwir y cronfeydd sy'n weddill gyda dyhead i sicrhau incwm y gall yr Elusen ei wario ar ei hamcanion.

## Strwythur, llywodraethiant a rheolaeth

### Dogfen Lywodraethu

Elusen gyfyngedig drwy warant yw Blynyddoedd Cynnar Cymru ac fe'i llywodraethir gan femorandwm ac erthyglau dyddiedig 12 Gorffennaf 2018.

### Cyfarwyddwyr ac Ymddiriedolwyr

Cyfarwyddwyr y cwmni elusennol (yr Elusen) yw ei Ymddiriedolwyr. At ddibenion cyfraith elusennau a thrwy gydol yr adroddiad hwn, cyfeirir atynt ar y cyd fel yr Ymddiriedolwyr.

### Penodi Ymddiriedolwyr

Fel y nodir yn yr erthyglau cymdeithasu, etholir y Cadeirydd a'r Trysorydd gan yr Ymddiriedolwyr. Penodir Ysgrifennydd y Cwmni gan yr Ymddiriedolwyr. Caiff yr Ymddiriedolwyr eu recriwtio gan ddefnyddio nifer o ddulliau, yn amrywio o hysbysebion cyffredinol, mynd at rywun yn uniongyrchol pan fydd gofyn am sgiliau neu brofiadau penodol, a phobl yn gwneud argymhellion. Penodir ymddiriedolwyr am gyfnod o bedair blynedd a gellir eu hailbenodi am bedair blynedd arall, cyn bod gofyn iddynt ymddiswyddo am o leiaf 12 mis. Mae'r ymddiriedolwyr yn gymysgedd o aelodau a gwirfoddolwyr Blynyddoedd Cynnar Cymru sydd â sgiliau a phrofiad proffesiynol a phersonol. Gellir penodi Ymddiriedolwyr Cyfetholedig.

### Hyfforddiant a Sefydlu Ymddiriedolwyr

Mae proses sefydlu gyda'r Prif Weithredwr a'r Cadeirydd i ymddiriedolwyr Blynyddoedd Cynnar Cymru. Mae hyfforddiant Ymddiriedolwyr pwrpasol a chyffredinol ar gael.

### Trefniadaeth

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, a all gynnwys hyd at 20 aelod, sy'n gweinyddu'r Elusen ac yn gosod cenhadaeth, cyfeiriad a strategaeth gyffredinol Blynyddoedd Cynnar Cymru. Mae'n craffu ar berfformiad er mwyn sicrhau bod y strategaeth yn cael ei gweithredu'n effeithiol yn ogystal â chymeradwyo cyllidebau a monitro aelodaeth a'r gofrestr asesu risg.

Cyfrifoldeb y tîm rheoli o dan arweiniad y Prif Weithredwr yw manylion gweithredol a rhoi'r strategaeth ar waith. Mae hyn yn sicrhau:

- Bod y sefydliad yn canolbwyntio o hyd ar ei genhadaeth a'i strategaeth
- Bod penderfyniadau strategol a pholisi allweddol yn cael eu gwneud gan y bwrdd, a
- Bod cymorth a her adeiladol yn cael eu cynnig i'r tîm rheoli a'r Prif Weithredwr gan yr Ymddiriedolwyr.

Mae'r Bwrdd yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn. Mae'r Pwyllgor Cyllid yn cwrdd bedair gwaith y flwyddyn rhwng cyfarfodydd y Bwrdd.

## Partïon Cysylltiedig

Roedd un trafodiad parti cysylltiedig yn ymwneud â blwyddyn ariannol 2024/25 (2023/24: dim). Darparodd Jaziea Farag wasanaethau proffesiynol oedd yn werth £1,966 i'r Elusen ar yr un pryd â bod yn aelod o'r Bwrdd.

Mae'n ofynnol datgan a llofnodi pob buddiant yn ffurflen Datgan Buddiannau'r Ymddiriedolwyr fel sy'n ofynnol o dan god llywodraethu Blynyddoedd Cynnar Cymru. Cedwir a diweddarir cofrestr gwrthdaro buddiannau yn flynyddol, neu pan fo hynny'n briodol. Yn ogystal, gofynnir i bob Ymddiriedolwr ddatgan unrhyw fuddiant sy'n berthnasol i'r agenda ym mhob cyfarfod o'r Bwrdd.

## Personél Allweddol

David Goodger – Prif Weithredwr
Lisa McMullen – Pennaeth Cyllid a Chontractau
Moya Williams – Pennaeth Gwasanaethau Aelodau a Chontractau Awdurdodau Lleol
Julie Powell – Pennaeth Hyfforddiant, Dysgu a Datblygiad
Leo Holmes – Pennaeth Polisi ac Eiriolaeth

Cafodd y prif bersonél rheoli dâl oedd yn werth cyfanswm o £214,272 (2024: £320,655).

Mae nifer y prif bersonél rheoli yn yr Elusen wedi lleihau o wyth yn y flwyddyn flaenorol i bump yn y flwyddyn gyfredol o ganlyniad i ailstrwythuro'r Elusen.

## Polisi Cyflogau'r Staff

Mae cyflogau'r holl staff yn cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd ac yn cael eu gosod ar gyfradd y farchnad. Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol. Polisi'r Elusen yw rhoi ystyriaeth lawn a theg i geisiadau am waith gan bobl sy'n arddel nodweddion gwarchodedig, gan gynnwys anabledd a chefndiroedd ethnig lleiafrifol. Cafodd gweithwyr anabl hyfforddiant priodol i hyrwyddo'u datblygiad gyrfa yn yr Elusen. Mae'r gweithwyr yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am sefyllfa'r Elusen ac am unrhyw gynnydd drwy gyfarfodydd mewnol rheolaidd.

## Rheoli Risg

Mae Blynyddoedd Cynnar Cymru yn ystyried ei hunan yn sefydliad sy'n ddeallus o ran risg, gan gymryd risgiau sy'n cael eu rheoli'n briodol mewn amgylchedd cynyddol heriol. Mae ein cofrestr risg a'n gweithdrefnau rheoli risg wedi'u hymgorffori'n llawn yn y sefydliad. Caiff y gofrestr risg ei diweddaru a'i hadolygu gan yr Ymddiriedolwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd ac mewn cyfarfodydd Cyllid.

## Manylion gweinyddol a chyfeirio

| | |
|---|---|
| Enw'r elusen: | Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018 yn masnachu fel Blynyddoedd Cynnar Cymru |
| Rhif elusen: | 1056381 |
| Rhif cwmni: | 3164233 |
| Cyfeiriad cofrestredig: | Uned 9, Llys Canol, Ystâd Ddiwydiannol Trefforest. CF37 5YR |
| Ymddiriedolwyr: | Natalie McDonald – (penodwyd 26.09.24) |
| | David Dallimore (Cadeirydd) |
| | Tanwen Grover – (penodwyd 26.09.24) |
| | Jocelyn Elmer – (penodwyd 01.02.24) |
| | Clare Murphy – (penodwyd 01.02.24) |
| | Kathryn Leighfield |
| | Jamie Powell (Trysorydd) |
| | Lisa Owen |
| | Carolyn Asante (ymddiswyddodd 12.02.25) |
| | Jaziea Farag |
| | Emily Dace (penodwyd 01.02.24 – ymddiswyddodd 18.11.24) |
| | Gabby Meredith (ymddiswyddodd 05.02.25) |
| Ysgrifennydd: | David Goodger (Prif Weithredwr) |
| Archwilwyr: | Bevan Buckland |
| Bancwyr: | Banc Barclays, 51, Stryt yr Hôb, Wrecsam. LL11 1BE. |
| Darparwyr buddsoddiadau: | CCLA, Senator House, 85, Queen Victoria Street, Llundain. EC4V 4ET |

## Archwilydd
Yn unol ag erthyglau'r cwmni, bydd cynnig i ailbenodi Bevan Buckland yn archwilydd y cwmni yn cael ei gyflwyno i gyfarfod o'r Bwrdd.

## Datgelu gwybodaeth i'r archwilydd
Mae pob un o'r Ymddiriedolwyr wedi cadarnhau nad oes dim gwybodaeth y maent yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i'r archwiliad, ond nad yw'r archwilydd yn ymwybodol ohoni. Maent wedi cadarnhau ymhellach eu bod wedi cymryd camau priodol i nodi gwybodaeth berthnasol o'r fath ac i sefydlu bod yr archwilydd yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Cymeradwywyd adroddiad yr Ymddiriedolwyr gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr

.........................................................
David Dallimore
Cadeirydd

Dyddiedig: .......................

Mae'r Ymddiriedolwyr, sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Blynyddoedd Cynnar Cymru 2018 at ddibenion cyfraith cwmnïau, yn gyfrifol am baratoi Adroddiad yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol y Deyrnas Unedig).

Mae cyfraith cwmnïau yn ei gwneud yn ofynnol i'r Ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, sy'n rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Elusen ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant y cwmni elusennol ar gyfer y flwyddyn honno.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u defnyddio'n gyson;
- Dilyn y dulliau a'r egwyddorion yn y Datganiad o'r Arferion a Argymhellir ar gyfer Elusennau;
- Gwneud dyfarniadau ac amcangyfrifon sy'n rhesymol ac yn ddoeth;
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, oni bai ei bod yn amhriodol tybio y bydd yr Elusen yn parhau i weithredu

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu digonol sy'n datgelu gyda chywirdeb rhesymol ar unrhyw adeg sefyllfa ariannol yr elusen ac sy'n eu galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006. Maent hefyd yn gyfrifol am asedau'r Elusen ac felly am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal yr Elusen, am ei huniondeb, ac am y wybodaeth ariannol sydd wedi'i chynnwys ar wefan yr Elusen. Gall y ddeddfwriaeth yn y Deyrnas Unedig sy'n llywodraethu'r gwaith o baratoi a chyhoeddi datganiadau ariannol fod yn wahanol i'r ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill.

**Cydnabyddiaeth llun (dros y dudalen):** Tiddlers Wraparound



EarlyYearsWales2018

earlywales

earlyyearswales

Early Years Wales

www.earlyyears.wales

www.blynyddoeddcynnar.cymru

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Early Years Wales
Blynyddoedd Cynnar Cymru